**TAG UG/Uwch**

S16-2100N20-1

2100N20-1 – **UG NEWYDD**

# HANES – Uned 2
## ASTUDIAETH FANWL 2
## Brenhiniaeth, Gwrthryfel a Gweriniaeth, tua 1625-1660
## Rhan 1: Y pwysau ar y frenhiniaeth a'r symudiad i gyfeiriad rhyfel cartref, tua 1625-1642

P.M. DYDD MERCHER, 25 Mai 2016

1 awr 45 munud

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur hwn, bydd angen llyfryn ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch y **ddau** gwestiwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn.

Dylech dreulio tua 50 munud ar bob cwestiwn.

Mae'n bosibl bod y ffynonellau a'r dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**UNED 2**

**ASTUDIAETH FANWL 2**

**Brenhiniaeth, Gwrthryfel a Gweriniaeth, tua 1625-1660**

**Rhan 1: Y pwysau ar y frenhiniaeth a'r symudiad i gyfeiriad rhyfel cartref, tua 1625-1642**

*Atebwch y* **ddau** *gwestiwn.*

**CWESTIWN 1**

Astudiwch y ffynonellau isod ac atebwch y cwestiwn sy'n dilyn.

**Ffynhonnell A**

> Mae rhai yn holi am weithgareddau un sydd ymhlith yr agosaf ataf, sef Ei Ras, Dug Buckingham. Pan oedd ef ar y blaen yn herio Sbaen, roeddech chi'n ei ystyried yn deilwng o bob anrhydedd gafodd ei chyflwyno iddo gan y diweddar Frenin, fy nhad. Ers hynny nid yw wedi gwneud dim ond yr hyn oedd yn codi o'r polisi hwnnw, ac mae wedi defnyddio ei adnoddau ei hun i'r un diben. Nid wyf am i'r Tŷ godi amheuon ynghylch fy ngweision, yn enwedig un sydd mor agos ataf fi fy hun. Rwy'n mynnu felly eich bod yn rhoi'r gorau i'ch beirniadaethau a'ch bod yn trin fy ngwas â'r parch mae'n ei haeddu. Gwrandewch ar fy nghyngor neu, os na fyddwch, byddaf fi'n delio'n llym â'r rhai sy'n meiddio herio ewyllys eu Sofran.

[Cyfarwyddyd yn llawysgrif Siarl I, yn sôn am yr ymosodiadau ar Buckingham, a gafodd ei roi i Lefarydd Tŷ'r Cyffredin i'w ddarllen yn uchel i'r ASau (1626)]

**Ffynhonnell B**

> Mae Sbaen a Ffrainc yn ymuno â'i gilydd i gael gwared â'n crefydd ni. Mae ganddynt lawer iawn o filwyr yn barod i ymosod arnom. Mae'r cyfrifoldeb mawr o ddarparu arian ar gyfer llongau yn rhy drwm i'r trefi porthladd a'r siroedd cyfagos ar eu pennau eu hunain, felly mae'r Cyngor wedi cyfrifo cost gyfan y llynges, ac wedi rhannu hynny rhwng holl siroedd y Deyrnas. O wybod maint y perygl sy'n wynebu'r Deyrnas, rydym yn rhyfeddu at eich anallu i gasglu a danfon y swm gafodd ei asesu ar gyfer eich sir. Mae'r swm o £20 sydd wedi'i gasglu hyd yn hyn yn sarhad ar ein hurddas ni. Rydym yn eich gorchymyn i baratoi rhestr o enwau'r boneddigion hynny ac eraill sydd heb dalu. Brysiwch i baratoi eich rhestr gan ein bod yn bwriadu ymlid ac erlyn y rhai sy'n gwrthod ufuddhau i ni ynghylch y mater hwn o Arian Llongau.

[Siarl I, yn ysgrifennu mewn llythyr swyddogol at Lloyd Piers Maesmawr, Siryf Sir Drefaldwyn, yn hawlio taliad ar gyfer yr Arian Llongau (1637)]

**Ffynhonnell C**

| |
|---|
| Mae pobl y deyrnas hon wedi derbyn gwasanaeth clodwiw gan y Brenin yn ogystal â'i lywodraeth. Fel cynrychiolydd Duw ar y ddaear, doedd dim angen i'r Brenin gael cyngor y Senedd na'r Cyngor; roedd ei ddoethineb, ei ofal a'i ewyllys da yn ddigon i lywio'r Deyrnas hon drwy ddyfroedd garw. Nid oes yr un Deyrnas yn Ewrop sydd wedi'i llywodraethu'n well na Lloegr. Mae'r rhai sy'n mynnu dychweliad y Senedd yn gwneud hynny er gwaethaf y Brenin. Ni fydd e'n trafod ail-alw'r lle dieflig hwnnw, a bydd yn cosbi'r rhai sy'n meiddio sôn am Dŷ'r Cyffredin. Ar sail ei brofiad dros lawer o flynyddoedd, barn y Brenin yw bod y Tŷ isaf yn cynnwys dynion amheus o'r math mwyaf dibwys sy'n cynllwynio brad a chynllunio gwrthryfel. |

[Syr Thomas Wentworth, Iarll Strafford, Ysgrifennydd Gwladol y Brenin, yn ysgrifennu mewn memorandwm swyddogol at Iarll Manchester, cyn aelod hŷn o Dŷ'r Arglwyddi (1638)]

Gan gyfeirio at y ffynonellau a defnyddio'r hyn rydych chi'n ei ddeall am y cyd-destun hanesyddol, aseswch werth y tair ffynhonnell hyn i hanesydd sy'n astudio'r problemau oedd yn wynebu Siarl I cyn 1640. [30]

**CWESTIWN 2**

Astudiwch y darnau isod ac atebwch y cwestiwn sy'n dilyn.

**Dehongliad 1**

Siarl oedd yn bennaf cyfrifol am y ffaith bod rhyfel wedi dechrau erbyn 1642 oherwydd ei fod e'n credu drwy'r amser nad oedd yn bosibl ymddiried yn y Senedd. Daeth y safbwynt hwn yn hunan-gyflawnol. Fe ddigiodd a thramgwyddodd *(alienated)* yr aelodau mwy cymedrol drwy gymryd mesurau llym yn erbyn gwrthwynebwyr, megis penodi beirniaid blaenllaw yn siryfion er mwyn eu gwahardd o Senedd 1626. Flwyddyn ar ôl ei esgyniad, achosodd ei ddiffyg amynedd iddo archwilio dulliau o wneud llywodraeth an-Seneddol yn ymarferol, sef y Rhodd dan Orfod *(Benevolence)* a'r Benthyciad Gorfodol yn arbennig. Erbyn 1629 roedd e'n benderfynol o lywodraethu ar ei ben ei hun, heb gael ei lyffetheirio gan, yn ei farn ef, aelodau annheyrngar ac anghwrtais Tŷ'r Cyffredin. Roedd ar fin rhoi ei ddamcaniaeth o'r Hawl Ddwyfol ar waith ac roedd hadau'r gwrthdaro wedi'u hau.

[G. E. Seel a D. L. Smith, haneswyr academaidd ac arbenigwyr ar hanes gwleidyddol oes y Stiwartiaid, yn ysgrifennu yn eu gwerslyfr arbenigol, *The Early Stuart Kings 1603-1642* (2001)]

**Dehongliad 2**

Does fawr o amheuaeth mai'r Senedd, a Thŷ'r Cyffredin yn fwy penodol, oedd yn gyfrifol am ddechrau'r rhyfel erbyn 1642. Chwalodd y Senedd Fer oherwydd bod y mwyafrif o ASau yn styfnig ac anhydrin *(obstinate)* yn gwrthod cyfaddawdu â'r Brenin. Dan ysbrydoliaeth araith John Pym ar y camddefnydd o rym gan y Goron a'i gweinidogion yn ystod y Llywodraeth Bersonol, pleidleisiodd Tŷ'r Cyffredin dros wrthod cais y Goron am gymorthdaliadau os na fyddai ei restr o gŵynion yn derbyn sylw. Mewn gair, roedd y Brenin Siarl yn cael ei flacmelio gan ei Senedd ei hun. Ni allai unrhyw frenin ddygymod â sefyllfa annioddefol fel hon. Cyrhaeddodd y tensiwn rhwng y Goron a Thŷ'r Cyffredin ei uchafbwynt yn y Senedd Hir pan gafodd Siarl ei orfodi i ddelio â sefydliad oedd yn fwyfwy ymosodol a chwerylgar. I bob pwrpas cafodd y Brenin ei brocio i ddatgan rhyfel gan agwedd y Senedd.

[Roger Lockyer, hanesydd academaidd ac arbenigwr ar hanes gwleidyddol y cyfnod modern cynnar, yn ysgrifennu yn ei werslyfr cyffredinol, *Tudor and Stuart Britain 1471-1714* (1985)]

Mae haneswyr wedi llunio dehongliadau gwahanol o'r cyfrifoldeb am ddechrau'r Rhyfel Cartref. Dadansoddwch, gwerthuswch a defnyddiwch y ddau ddarn uchod, a defnyddio'r hyn rydych chi'n ei ddeall am y ddadl hanesyddol, i ateb y cwestiwn canlynol:

Pa mor ddilys yw'r safbwynt mai'r Senedd oedd yn bennaf cyfrifol am y ffaith bod rhyfel wedi dechrau erbyn 1642? [30]

**DIWEDD Y PAPUR**